# Cerddoriaeth hip-hop

KIZZY Hei, wyt ti’n chwarae *Cwestiynau* yn dy set di heno?

ED O saff. Byddai’n saff o chwarae *Cwestiynau* heno.

KIZZY Gwych. Dw i’n dwlu ar y gân ‘na.

ED Diolch, Kizzy. Mae hi’n gân eithaf personol. Yn anffodus, wnes i golli rhai aelodau o’r teulu, ac o’n i’n trio ateb lot o gwestiynau yn fy mhen i drio gwneud synnwyr o bob dim.

Roeddwn i eisiau creu rhywbeth oedd yn adlewyrchu fy mywyd i ar y pryd. Dw i’n meddwl ei fod o’n bwysig defnyddio profiadau personol wrth gyfansoddi a chreu cerddoriaeth bwerus.

KIZZY Cytuno’n llwyr. Dywed fwy wrthyf i am sut wnest ti gyfansoddi *Cwestiynau*.

ED Wel, hip-hop ydy fy mheth i, rili, ac yn enwedig yr elfen o bît-bocsio, felly fanno dechreuais i.

Wnes i osod y curiad sain.

Wedyn wnes i ddefnyddio meddalwedd arbennig i wahanu’r bît-bocsio yn synau gwahanol.

KIZZY Mae hynny’n rhoi mwy o reolaeth i ti dros y sain, yw e?

ED Yn union hynny. Mae technoleg yn rhoi opsiynau i mi. Er enghraifft, dw i’n medru hafalu’r drwm bas, cywasgu’r drwm gwifrau neu unrhyw sain arall ar ei phen ei hun.

Nesaf, i allu gosod y bas, wnes i ganu yn y cwmpawd isel. Mae addasiad y sain yn rhan hanfodol o hip-hop. Wnes i brosesu’r sain efo ategyn i greu sain bas isel cryf ar y llais.

Wedyn wnes i roi o drwy gywasgydd i wneud yn siŵr fod y sain ddim yn llyncu amleddau isel y cymysgedd i gyd. Mi wnes i ddyblu llinell y bas ac ychwanegu ystumiant i’r copi.

KIZZY Mae’n teimlo’n atmosfferig iawn.


© Hawlfraint BBC

| | |
|---|---|
| ED | Gwych - dyna'n union o'n i eisiau. Nesaf, wnes i wrando ar nodau llinell y bas a chyfansoddi cyfres o nodau i mi ganu uwch ei phen hi. Dw i ddim yn cysidro fy hun yn llawer o ganwr. |
| KIZZY | Rwyt ti'n swnio'n iawn i fi. |
| ED | Dw i'n falch dy fod ti newydd ddweud hynny, diolch. Dw i yn medru cynnal nodyn, a dyna yn union wnes i.<br><br>Wnes i ychwanegu haenau fel bod fy llais yn swnio fel côr.<br><br>Hefyd, wnes i ychwanegu effeithiau gwahanol fel datseinedd, cylchu'r sain ac oediad, sy'n cyfleu naws y gofod yn y gân.<br><br>Mae o'n amlwg iawn reit ar y dechrau. Checia hyn allan.<br><br>Unwaith roeddwn i'n hapus efo'r gerddoriaeth, roeddwn i'n barod i ychwanegu'r geiriau. A wnei di ddim credu be' wnes i. |
| KIZZY | Beth 'te? |
| ED | Wnes i ddringo mynydd, ac eistedd yno ar mhen fy hun, yn gwrando ar y gerddoriaeth drosodd a throsodd, ac yn ysgrifennu wrth i'r geiriau ddod i'r meddwl. |
| KIZZY | Pawb a'i beth. |
| ED | Gwir. Rwyt ti angen teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus wrth greu dy neges. A dyna helpodd efo'r ysbrydoliaeth. |
| KIZZY | Ed Holden, Mr Phormula, artist hip-hop o fri, a dringwr mynyddoedd!<br><br>Doeddwn i ddim wedi disgwyl hynny, mae'n rhaid dweud. |


© Hawlfraint BBC